WWW.UMABER.CO.UK/ETHOLIDIAU

NEIDIA AM NEWID

# ETHOLIADAU ARWEINYDDIAETH

## RHEOLAU 2015

Mae Rheolau'r Etholiad yn cynnwys rhannau o reolau cyffredin yr Undeb (yr Is-ddeddfau) sy'n perthyn i etholiadau.

Er bod y Rheolau hyn yn cynnwys yr holl bethau y dylech, ac na ddylech, eu gwneud ar gyfer etholiadau, dylech hefyd fynd i http://www.umaber.co.uk/eich-undeb/llywodraethu/cyfansoddiad/ a darllen Is-ddeddf 1, sy'n ymwneud ag etholiadau.

Nodwch os gwelwch yn dda, fod rheoliadau'r brifysgol a deddf gwlad yn berthnasol i bob ymgeisydd, yn ogystal â'r rheiny a restrir isod.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, holwch Andrew Morwood anm56@aber.ac.uk

Lluniwyd dan adran 12,

Is-ddeddf 1 o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

## 1. Enwebiadau

1.1 Rhaid gwneud enwebiadau gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael drwy umaber.co.uk erbyn y dyddiad a nodir yn yr amserlen ar gyfer etholiadau.

## 2. Pleidleisio a blychau balot

2.1 Cynhelir yr etholiad drwy bleidlais ar-lein ar draws y campws. Defnyddir system o Bleidleisiau sy'n Trosglwyddo ar gyfer pob etholiad. Defnyddir Pleidlais Amgen i ethol swyddi unigol (swyddogion) a Phleidlais Unigol sy'n Trosglwyddo i ethol swyddi niferus (cynrychiolwyr i gynadleddau).

2.2 Mae unrhyw berson sy'n:

(a) gwneud, neu'n

(b) achosi neu'n peri unrhyw beth i gael ei wneud;

a allai effeithio ar gywirdeb y bleidlais, yn cyflawni trosedd etholiadol.

## 3. Maniffestos ac Enwebiadau

3.1 Rhaid i ymgeiswyr gynhyrchu maniffesto heb fod yn fwy na 300 gair ar gyfer swyddi llawn-amser a 200 gair ar gyfer pob swydd arall, cyn eu cyfieithu, erbyn y dyddiad a nodir yn yr amserlen ar gyfer etholiadau. Ni ddylai cynnwys y maniffesto gyfeirio at ymgeiswyr eraill, myfyrwyr unigol nag aelodau staff.

3.2 Bydd maniffestos pob ymgeisydd sydd wedi cael eu cyflwyno mewn da bryd ar gael ar wefan yr Undeb cyn dechrau'r cyfnod pleidleisio.

3.3 Caiff unrhyw ymgeisydd sydd ddim yn cyflwyno maniffesto a llun gan ddefnyddio'r broses enwebu ar-lein erbyn diwedd y cyfnod enwebu, ei diarddel yn awtomatig o'r broses etholiadol.

## 4. Teyrngarwch Gwleidyddol

4.1 Ni chaiff ymgeisydd dderbyn cymorth gan gymdeithas wleidyddol genedlaethol wrth hysbysebu'r etholiad na'u hymgeisiaeth, nac unrhyw gymorth a allai o bosib ddylanwadu ar y broses ddemocrataidd.

4.2 Rhaid i ymgeiswyr etholedig sicrhau nad yw unrhyw deyrngarwch sydd ganddynt i fudiadau eraill mewn unrhyw ffordd yn gwrthgyferbynnu â pholisi'r Undeb, na buddiannau Undeb y Myfyrwyr yn ei gyfanrwydd.

4.3 Mae ymgeisydd sy'n gwneud unrhyw beth sy'n groes i'r adran hon yn cyflawni trosedd etholiadol.

4.4 Mae gan ymgeiswyr y dewis o ddatgan teyrngarwch gwleidyddol.

4.5 Nid yw'r adran hon yn atal mudiad gwleidyddol cenedlaethol rhag trafod yn gyhoeddus gyfranogiad ymgeisydd yn yr etholiad, ar ôl i'r cyfnod pleidleisio ddod i ben.

## 5. Timoedd Ymgyrchu a Chefnogwyr

5.1 Mae ymgeiswyr yn bersonol gyfrifol am weithredoedd eu timoedd ymgyrchu a'u cefnogwyr gydol cyfnod yr etholiad. Mae ymgeisydd yn gyfrifol am drosedd etholiadol a gyflawnir gan aelod o dîm ymgyrchu'r ymgeisydd neu un o'u cefnogwyr.

5.2 Mae'n amddiffyniad i ymgeisydd sy'n cyflawni trosedd dan adran 5.1 os gall brofi eu bod naill ai:

a) wedi cymryd pob camau rhesymol i atal gweithredoedd o'r fath rhag digwydd, neu

b) bod yr aelod hwnnw o'r tîm ymgyrchu wedi gwneud y weithred yn groes i gyfarwyddyd uniongyrchol gan yr ymgeisydd, neu aelod arall o dîm yr ymgyrch.

## 6. Ymgyrchu: ymddygiad a waherddir

6.1 Mae gweithred neu esgeulustod gan berson a allai:

a) fod yn gyfystyr â thorri'r deddfau perthnasol, a

b) sy'n cael ei chyflawni wrth ymgyrchu;

yn drosedd etholiadol. Ond mae hyn yn atal person rhag cwestiynu dilysrwydd deddf o'r fath. Golyga "deddfau perthnasol" gyfraith Lloegr a Chymru, Siartr y Brifysgol ac unrhyw statud, ordinhad, rheol sefydlog, rheol neu reoliad a wneir danynt, a Chyfansoddiad, Is-ddeddfau a Rheoliadau UMPA.

6.2 Ni chaiff person sy'n ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn yr Undeb, neu sy'n cynrychioli'r Undeb, ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu wrth gyflawni eu dyletswyddau fel gweithwyr neu gynrychiolwyr UMPA. Bydd unrhyw weithgaredd o'r fath yn drosedd etholiadol.

6.3 Mae person sy'n gwisgo dilledyn yr Undeb (lifrau staff neu ddillad gwaith Swyddog) yn ystod ymgyrch yn cyflawni trosedd etholiadol.

6.4 Mae person sy'n dal unrhyw swydd yn UMPA, ac sydd yn ystod ymgyrch yn defnyddio unrhyw adnoddau, deunydd, gofod mewn swyddfa neu unrhyw beth arall sydd ond ar gael iddynt yn rhinwedd y ffaith eu bod yn dal y swydd honno, yn cyflawni trosedd etholiadol.

6.5 Mae person sy'n defnyddio marc adnabyddiaeth (megis logo neu fathodyn) y Brifysgol, yr Undeb neu UMCA wrth ymgyrchu yn cyflawni trosedd etholiadol. Ond ni fydd hyn yn atal y defnydd damweiniol o farc o'r fath, lle nad yw'r defnydd ohono'n debygol o roi'r argraff ei fod yn awdurdodi nac yn caniatáu.

6.6 Gall unrhyw e-bost at nifer lluosog o dderbynwyr, a anfonir at glybiau a chymdeithasau, arwain at ddiarddel yr ymgeisydd a dirwyo'r clwb/cymdeithas.

## 7. Newidiadau ac ychwanegiadau at y Rheolau yn ystod ymgyrch.

7.1 Bydd gan y Swyddog Etholiadau'r pŵer i ddiddymu unrhyw ddatganiad neu gyhoeddiad (neu unrhyw ran ohonynt) os credant yn rhesymol ei fod yn groes i'r rheolau perthnasol. Unwaith y caiff datganiad neu gyhoeddiad ei ddiddymu, ni chaiff ymgeiswyr eu hailadrodd, nac unrhyw beth arall a

fwriadwyd i fynegi ei ystyr.

7.2 Gall y Swyddog Etholiadau, o bryd i'w gilydd, lunio Rheolau o'r fath fel y gwelant yn dda parthed:

(a) y broses ar gyfer enwebu pobl i sefyll mewn etholiad,

(b) sut y cynhelir ymgyrchoedd etholiadol,

(c) ymddygiad ymgeiswyr,

(d) cynhyrchu ac arddangos cyhoeddusrwydd etholiadol;

Cyn y daw newid o'r fath i rym, rhaid i'r Swyddog Etholiadau fod wedi; canfod cyngor y Dirprwy Swyddog Etholiadau, y Pwyllgor Etholiadau; cyhoeddi'r rheol am 48 awr; cymryd pob cam rhesymol i hysbysu pob ymgeisydd ynglŷn ag unrhyw Reol a wneir.

## 8. Cyhoeddusrwydd

8.1 Bydd gan Ymgeiswyr y cyfle i gynhyrchu fideo 3 munud yn hyrwyddo eu hymgeisiaeth, a fydd ar gael ar wefan yr Undeb. Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain i gynhyrchu'r rhain.

8.2 Lle bo hynny'n bosib, mae disgwyl i ymgeiswyr gynnwys y swydd maent yn ymgeisio amdani, dyddiad yr etholiad a chyfeiriad gwefan yr etholiad ar eu deunydd cyhoeddusrwydd.

8.3 Rhaid i unrhyw ddyfais, deunydd neu eitem a ddefnyddir yn ystod ymgyrch fod ar gael yn gyffredin i bob ymgeisydd. Cyn prynu unrhyw ddeunydd sy'n 'anarferol' na ddefnyddir fel arfer mewn ymgyrchoedd etholiadol yn UMPA, dylai ymgeiswyr ofyn caniatâd y swyddog etholiadol ar gyfer ei ddefnyddio. Mae person sy'n defnyddio unrhyw ddeunydd sydd ddim ar gael yn gyffredin i'r ymgeiswyr oll yn ystod ymgyrch yn cyflawni trosedd etholiadol. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r swyddog etholiadol.

8.4 Bydd gan ymgeiswyr ffin wariant penodol a osodir gan y dirprwy swyddog etholiadau pan fo enwebiadau'n cau. Os yw ymgeisydd yn sefyll am sawl swydd, gosodir ffin ar wariant gan y dirprwy swyddog etholiadau pan fo enwebiadau'n cau. Mae'r ffigwr hen yn cynnwys pob treuliau. Rhaid cyflwyno derbynebau ar gyfer pob gwariant i'r dirprwy swyddog etholiadau cyn y daw'r pleidleisio i ben.

8.5 Mae eitemau sydd ar gael yn gyffredin i ymgeiswyr oll, ac nad oes iddynt werth ariannol yn cynnwys: pens marcio, pens, pensiliau, llinyn, tâp gludiog, blu-tack, hen flychau cardfwrdd, paent, hen ddarnau o bren.

## 9. Gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol

9.1 Caiff ymgeiswyr greu eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol eu hunain i hyrwyddo eu hymgeisiaeth, serch hynny, rhaid i'r wybodaeth ar y brif dudalen fod yn ddwyieithog. Rhaid i unrhyw beth a osodir ar gyfryngau cymdeithasol ddilyn polisïau'r undeb parthed bwlio ac aflonyddu.

## 10. Cwestiynau i Ymgeiswyr (hystingau)

10.1 Bydd y Swyddog Etholiadau'n trefnu a chynnal Cwestiynau i Ymgeiswyr ar gyfer pob etholiad.

10.2 Bydd y Swyddog Etholiadau, neu berson a benodir ganddynt i'r diben hwnnw, yn cadeirio

Cwestiynau i Ymgeiswyr.
10.3 Caiff o fformat ar gyfer Cwestiynau i Ymgeiswyr ei gytuno â'r Swyddog Etholiadau
10.4 Rhaid i gwestiynau gael eu cyfeirio at bob ymgeisydd Gall y Cadeirydd benderfynu bod cwestiwn yn annilys oni chaiff ei gyfeirio at bob ymgeisydd.
10.5 Gall unrhyw ymgeisydd sydd ddim ar gael ar gyfer Cwestiynau i Ymgeiswyr oherwydd bod gwaith academaidd ar eu hamserlen, neu am reswm arall sy'n dderbyniol gan y Swyddog Etholiadau, benodi dirprwy i siarad ar eu rhan.

## 11. Dwyieithrwydd

11.1 Rhaid i'ch maniffesto ac unrhyw gyhoeddusrwydd, ac eithrio fideos, sialc a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol, fod yn ddwyieithog (gyda'r Gymraeg naill ai uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg). Caiff eich cyflwyniad, fel rhan o'ch enwebiad, ei gyfieithu ar eich rhan gan undeb y myfyrwyr. Caiff defnyddiau eraill eu cyfieithu gan undeb y myfyrwyr, serch hynny nid oes unrhyw sicrwydd ynglŷn â chyflymder cyfieithu ar gyfer ymgeiswyr. Os yw ymgeisydd wedi cyflwyno testun i'w gyfieithu, ond nad yw eto wedi ei dderbyn yn ôl, gallant ymgyrchu â'r deunydd hwnnw'n uniaith tra byddant yn aros am gyfieithiad.

## 12. Ymgyrchu negyddol

12.1 Mae person sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchu negyddol yn cyflawni trosedd etholiadol.
12.2 Golyga "ymgyrchu negyddol" unrhyw ddatganiad neu gyhoeddiad sydd, o ystyried y cyfanwaith, yn tueddu i feirniadu ymgeisydd arall. Nid yw hyn yn cynnwys beirniadaeth o bolisïau ymgeiswyr eraill; gellir eu trafod hwy.

## 13. Cwynion

13.1 Gall unrhyw berson wneud cwyn (yr achwynydd) i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau parthed:

(a) unrhyw beth a wneir yn ystod ymgyrch etholiadol (yn ystod y canfasio a'r cyfnod pleidleisio), neu

(b) unrhyw beth yr honnir iddo fod wedi digwydd yn ystod ymgyrch etholiadol;

sydd, ym marn y sawl a wnaeth y cwyn, yn gyfystyr â throsedd etholiadol gan Aelod o UMPA (y diffinydd).

13.2 Rhaid i'r cwyn:

(a) gael ei wneud o fewn pum niwrnod gwaith yn dilyn y cyfrif ar gyfer yr etholiad mae'n perthyn iddo (ond gellir ei wneud ar unrhyw adeg cyn hynny)

(b) gael ei wneud mewn ysgrifen gydag enw a rhif myfyriwr yr aelod sy'n gwneud y cwyn, a

(c) rhaid iddo nodi'r drosedd etholiadol yr honnir sydd wedi cael ei chyflawni, a

(d) chynnwys unrhyw dystiolaeth os yw hynny'n bosib.

13.3 Ond ni chaiff person wneud cwyn ar ôl y cyfrif ynghylch unrhyw beth a wnaed cyn y cyfrif hwnnw, oni allant brofi nad oeddynt yn gallu gwneud y cwyn cyn y cynhaliwyd y cyfrif.

13.4 Lle bo hynny'n bosib, bydd disgwyl i ymgeiswyr geisio datrys problemau'n anffurfiol cyn troi at y broses ffurfiol ar gyfer gwneud cwyn.

13.5 Bydd y Pwyllgor Etholiadu'n cwrdd yn achlysurol yn ystod y cyfnod canfasio a phan fydd y pleidleisio'n dod i ben, i drafod unrhyw gwynion a dderbyniwyd cyn gwneud argymhellion i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau. Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i ateb unrhyw honiadau a wnaed yn eu herbyn.

13.6 Rhaid i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau ystyried pob cwyn a gwrando ar ba bynnag dystiolaeth sy'n ymddangos yn angenrheidiol i gyrraedd dyfarniad ar y mater.

13.7 Rhaid i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau gyrraedd penderfyniad ar sail cydbwysedd tebygolrwydd.

13.8 Gall y Dirprwy Swyddog Etholiadau:

(a) wrthod y cwyn:

i. ar y sail na wnaed y cwyn mewn ffordd ddilys,

ii. ar y sail nad oedd y weithred honedig, mewn gwirionedd, wedi cael ei chyflawni, neu

iii. ar y sail nad oedd y weithred yn gyfystyr â throsedd etholiadol,

iv. ar y sail nad yw'r achwynydd wedi ceisio datrys y mater yn anffurfiol,

(b) gadarnhau'r cwyn, neu

(c) ddod i'r casgliad na phrofwyd y cwyn.

13.9 Rhaid i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau hysbysu'r achwynydd a'r diffynydd o'u penderfyniad cynted ac sy'n ymarferol bosib, a rhaid eu hysbysu o'r hawl i apelio.

## 14. Cwynion: cosb

14.1 Os yw'r Dirprwy Swyddog Etholiadau'n cadarnhau cwyn cyn daw pleidleisio yn yr etholiad i ben, gallant:

(a) geryddu'r ymgeisydd y gwnaed y cwyn yn eu herbyn,

(b) gosod cosb sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau, gan ystyried natur a maint y drosedd a'r modd y'i cyflawnwyd.

(c) diarddel yr ymgeisydd y gwnaed y cwyn yn eu herbyn,

(d) benderfynu diddymu'r etholiad a'i ail-gynnal.

14.2 Os yw'r Dirprwy Swyddog Etholiadau'n cadarnhau cwyn ar ôl yr amser a nodwyd ar gyfer cau'r pleidleisio yn yr etholiad i ben, gallant:

(a) geryddu'r ymgeisydd y gwnaed y cwyn yn eu herbyn,

(b) diarddel yr ymgeisydd y gwnaed y cwyn yn eu herbyn, neu

(c) benderfynu ail-gynnal yr etholiad.

## 15. Cwynion: apeliadau

15.1 Os yw'r naill ochr neu'r llall yn anfodlon â phenderfyniad a wneir gan y Dirprwy Swyddog

Etholiadau parthed cwyn, gallant apelio'r penderfyniad hwnnw i'r Swyddog Etholiadau.

15.2 Rhaid i'r Swyddog Etholiadau ystyried pob apêl o'r fath a gwrando ar ba bynnag dystiolaeth sy'n ymddangos yn angenrheidiol i gyrraedd dyfarniad ar y mater.

15.3 Gall y Swyddog Etholiadau:

(a) wrthod yr apel:

i. ar y sail na wnaed yr apêl mewn ffordd ddilys,

ii. ar y sail nad oedd y weithred honedig, mewn gwirionedd, wedi cael ei chyflawni, neu

iii. ar y sail nad oedd y weithred yn gyfystyr â throsedd etholiadol,

(b) gadarnhau'r apêl, neu

(c) ddod i'r casgliad na phrofwyd yr apêl.

15.4 Gall y Swyddog Etholiadau, mewn unrhyw achos lle byddant yn cadarnhau apêl, benderfynu amrywio neu ddileu unrhyw gosb a roddwyd.

15.5 Rhaid i'r Swyddog Etholiadau hysbysu'r achwynydd a'r diffynydd o'u penderfyniad cynted ac sy'n ymarferol bosib.

15.6 Bydd penderfyniad a wneir gan y Swyddog Etholiadau dan yr adran hon yn derfynol.